# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 3

TYBACO A CHYNHYRCHION NICOTIN

### PENNOD 1

YSMYGU

*Mangreoedd di-fwg*

**13 Mangreoedd di-fwg ychwanegol**

(1) Caiff rheoliadau ddarparu i unrhyw fan yng Nghymru, neu ddisgrifiad o fan yng Nghymru, nad yw'n ddi-fwg yn rhinwedd adrannau 7 i 12 gael ei drin fel mangre ddi-fwg at ddibenion y Bennod hon.

(2) Nid oes angen i'r man, neu'r mannau sy'n dod o fewn y disgrifiad, fod yn gaeedig neu'n sylweddol gaeedig.

(3) Dim ond os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod gwneud hynny yn debygol o gyfrannu at hybu iechyd pobl Cymru y caiff y rheoliadau ddarparu i fan neu ddisgrifiad o fan gael ei drin fel mangre ddi-fwg.

(4) Caiff y rheoliadau ddarparu mai dim ond—

(a) o dan amgylchiadau penodedig,

(b) ar adegau penodedig,

(c) os yw amodau penodedig wedi eu bodloni, neu

(d) mewn ardaloedd penodedig,

neu unrhyw gyfuniad o'r rhain, y mae'r mannau hynny, neu fannau sy'n dod o fewn y disgrifiad, i gael eu trin fel mangreoedd di-fwg.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 13 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 07 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(5) Caiff y rheoliadau hefyd ddarparu ar gyfer esemptiadau, gan gynnwys gosod amodau penodedig i gael eu bodloni er mwyn i esemptiad fod yn gymwys.

(6) Caiff yr amodau y caniateir iddynt gael eu pennu o dan is-adran (5) gynnwys amod bod y person a chanddo ofal am y man, neu am fan sy'n dod o fewn y disgrifiad, wedi dynodi, yn unol â'r rheoliadau, unrhyw ardaloedd lle y mae ysmygu i gael ei ganiatáu.

(7) Ni chaiff rheoliadau o dan yr adran hon wneud darpariaeth mewn cysylltiad â mangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd; ac i'r graddau y maent yn gwneud darpariaeth i fangre a ddefnyddir yn rhannol fel annedd gael ei thrin fel mangre ddi-fwg, rhaid i reoliadau o dan yr adran hon gydymffurfio ag adran 14.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 13 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 126(2)**

**I2** A. 13 mewn grym ar 1.3.2021 gan O.S. 2021/202, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 13 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 07 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2017/949, art. 3 by S.I. 2017/967 art. 2